Lliwiau

Glas a gwyrdd a gwyn a du –
Lliwiau pwysig yn tŷ ni.

Glas:
Papurau newydd mawr a bach
Cylchgronau drud i mewn i'r sach.

Gwyrdd:
Planhigion trist a gwair a dail
I'w troi yn gompost heb ei ail.

Gwyn:
Poteli plastig dŵr a lla'th
Poteli plastig o bob math.

Du:
Poteli gwydr – gwin a pop
Tuniau bach a mawr o'r siop.

Glas a gwyrdd a gwyn a du –
Lliwiau pwysig yn tŷ ni.

Hedd ap Emlyn

pwysig – important
sach – sack
cylchgronau drud – expensive magazines
planhigion – plants
trist – sad
gwair = porfa – grass
dail – leaves
heb ei ail – second to none = the best
lla'th = llaeth = llefrith – milk
gwin – wine